



Cymdeithas Edward Llwyd

# Bwletin Llên Natur 9

i Naturiaethwyr ac i Bobl Cymru  
[www.llennatur.com](http://www.llennatur.com)



Llun: Jeremy Williams: Mynydd Graig Goch : tynnwyd 23 Rhag 2006

## Y Bryn a dyfodd yn Fynydd

**Cafodd Mynydd Graig Goch, ger Nebo, ei ddyrchafu'n ddiweddar i blith y copaon 2000 o droedfeddi.**

Meddai Jeremy: "*this temperature inversion was taken just before Christmas 2006. When we came down, people thought that it was just another cloudy day*"... Meddai Dyddiadur Llên Natur: "niwl yn y meysydd awyr yn clirio".

## Aeth rhedyn yn rhemp

Yn 1920au cynnar bu'n arfer gan Griffith Thomas hel rhedyn pob blwyddyn yn yr Allt, neu yn yr hyn a alwai "Y Parc o dan yr Allt". Yn Sir Gaernarfon llecynnau cymharol wael fel arfer sydd yn dwyn yr enw hwn, a llefydd gwaeth yw gelltydd.

Cofnododd Griffith yn aml iddo gario, gyda chymdogion dau neu dri llwyth o redyn mewn diwrnod. Yr unig ddefnydd a grybwyllodd yn ei ddyddiadur\* ar gyfer y rhedyn oedd ei roi "ymhen y das wair" ond byddai'r llwythi a gofnododd yn ormod i'r perwyl hwnnw yn unig. Prif bwrpas y rhedyn felly, mae'n debyg, oedd ei roi o dan y gwartheg gefn gaeaf.

Ers oes Griffith Thomas aeth rhedyn yn rhemp. Mae yna ddau beth sydd gas gan redyn, yn enwedig pan fo'r planhigion yn ffidilau bach yn gwthio eu pennau trwy'r pridd ym mis Ebrill, sef llosg barrug gwanwyn a chael eu sathru dan draed anifeiliaid trymion. Beth sydd i'w gyfri' am y cynnydd felly? Heddiw, mae yna lai o ffermwyr yn cadw gwartheg, a llai fyth yn cadw hen frîd y gwartheg duon Cymreig. Ac os ydyn nhw, mae'r brîd hwnnw erbyn hyn wedi meddalau ac yn arfer byw ar dir brasach na'r amser gynt. A phwy heddiw sy'n torri rhedyn fel gwely gaeaf i wartheg - heb sôn am doi teisi gwair? Ac, wrth,

gwrs peth achlysurol iawn yw barrug gwanwyn erbyn hyn o'i gymharu â phedair ugain mlynedd yn ôl.

Mae popeth heddiw fel petai'n gweithio o blaid y rhedyn.



Ond nid rhyw rododendron ddieithr mohono. Mae'r rhedynen ungoes *Pteridium aquilinum* yn rhan o'n fflora cynhenid. Mae'n perthyn i fylchau yn y goedwig, bylchau a achoswyd gan farwolaeth yr ambell hen goeden. Yn nhrefn y fforest hynafol, y rhedyn oedd yn gyfrifol am feithrin y to nesaf o goed bach a fyddai'n cadw'r goedwig i fynd. Mae hynny ymhell o'i gyflwr plagus yn y parciau a'r gelltydd heddiw. Ond tybed? Ers canrifoedd

newidiwyd ein tir o fod yn un goedwig fawr gydag ambell fwllch, i fod yn un bwllch mawr gydag ambell goedlan yma ac acw. Griffith Thomas a'i gyd-ffermwyr cynt ac wedyn a greodd y sefyllfa hon. Ond yn fwy diweddar, tranc y fuwch, newid hinsawdd a mecanyddiaeth sydd wedi agor y llifddorau i'r rhedyn. DB \*gyda diolch i [www.rhiw.com](http://www.rhiw.com)

Addasiad o erthygl a ymddangosodd gyntaf yn Y Cymro

## Llythyr

Dyma ddywedodd y cyn milfeddyg, Ieuan Roberts. "Gennyf atgof o haf 1976 o weld nifer o wartheg yn marw ar ôl bwyta rhedyn gan mai dyna oedd yr unig blanhigion y flwyddyn honno oedd yn dal yn wyrdd. Mae'n cael effaith ar gynhyrchiad celloedd y gwaed ym mēr yr esgyrn a hyn yn achosi twymyn fawr a marwolaeth."



## Gallinis Aberhonddu



Clywais gymdogion o ffermwyr digymraeg ar gyrion Aberhonddu tua 1974 yn cyfeirio at eu **hieir gini** fel "gleanies". Arhosodd y gair yng nghefn fy meddwl am flynyddoedd heb i mi wybod beth oedd ei darddiad na chlywed y gair eto. Hynny hyd nes i mi weld y goleuni yn ddiweddar. Y gair Eidalaid *gallina*, lluos. *gallini*, wedi ei seisnigeiddio i *g'linis* ydoedd - a dyma gadarnhau hynny ar y Wikipedia Eidalaid: *La gallina di Numidia, detta anche gallina di faraone*. Pam



Carcharorion rhyfel Eidalaid o Henllan ar fferm Trecregyn, Aberporth, gyda'r ffermwr, y diweddar T.R. Williams (canol). Tybed a oes olion yr Eidalwyr ar y Saesneg neu'r Gymraeg yn yr ardal heddiw? IW

gair Eidalaid? Carcharorion rhyfel yn hen dref miliwrol Aberhonddu efallai?. Dwi'n iawn? DB

## Mwy am Goredau (a llongdrylliadau)

Yn 1847 hyrddiwyd y llong *Archiduo Palatino* yn erbyn clogwyn a elwid ar y pryd yn Glawdd y Gored, lleoliad y **Grand Hotel**, Llandudno heddiw. [Gweler y llun ac ymateb Steffan ab Owain iddo, o gored arall yn yr ardal, yn rhifynnau 7ac 8]. Dyma atgof annisgwyl o'r Llandudno cyn Fictoriaidd. Mae hanes y llong wedi ei serio ar gof pobl y dref fel "llong yr india corn" gan i'r llwyth ar ei bwrdd brofi yn ormod o demtasiwn iddynt ac fe arweiniodd at y Diarddel Mawr pan ddaeth swyddogion y tollau ar draws certiau wedi eu llwytho ag india corn yn ymlwybro ar hyd ffordd Llanrhos. Oherwydd cydymffurfiad y Methodistiaid Wesleidd yn y drosedd cawsant eu diarddel.

Ivor Wynne Jones, *Shipwrecks of North Wales*

## Arwyddion glaw o Ddefynnog, Powys

Os bydd pen 'Fan-Giherych' a'r 'Fan-hir' yn gwisgo eu capiau gwynion yn y boreu, gwlaw cyn nos arwyddion i bobl Crai fod.

Cylch eang o gwmpas y lloer...gwlaw buan "Cylch ym mhell, a gwlaw yn agos."

Os bydd y lleuad yn goch, golyga hîn wyntog.

*D Craianog Davies (1911) Hanes Plwyf Defynnog, H.W.Southey a'i feibion cyf Argraffwyr Merthyl Tydfil. IDW*

## Stori gwyfynaid

Wil Bach: Doctor, Doctor, dwi'n meddwl fy mod i'n wyfyn.

Doctor: Wel beth wyt ti'n ei wneud yn fa'ma - dyllet ti fynd i weld seiciatrydd.

Wil Bach: Dwi'n gwybod, ond welish i bod y drws yn agored a'r golau ymlaen....!

## Gwyfynod a Gloynnod Haf 2008

Er gwaetha'r tywydd anffafriol cafodd rhai ohonoch wledd....



Llun: Ian Keith, Prifathro Ysgol San Sior, Llandudno

*I swept [gyda rhwyd] the lobster moth caterpillar from sycamore beside the Afon Ogwen near Felin Cochwillan on 13 July 2008 (meddai'r entomolegydd John Bratton). Ei enw Cymraeg yw'r **llwyd ffawydd** (ydi hwn yn bwyta masarn hefyd?)....mae'r enw Saesneg yn tynnu cymhariaeth â chimwch. Ewch i wefan [www.gwyfynod.com](http://www.gwyfynod.com) os ydych am wledd arall.*



Mab Tom Jones Golan, Llyŷ, dynnodd y llun hwn yn Luton, swydd Bedford yn ddiweddar. Lindys gwyfyn y **siobyn** ydyw, *vapourer* yn Saesneg.



Tynnodd Ann Corkett y llun hwn o **fantell garpiog** yn adran llwyni cynffon las yng Nghanolfan Arddio Pentre Berw. Mi fydd enwau safonol y gwyfynod a'r gloynnod byw yn cael eu cyhoeddi ar y we ac mewn cyfrol yn fuan yn y flwyddyn newydd.



## Nodiadau Tywydd

### Huw Holland Jones gyda chymorth Twm Elias

Enw'r cwmwl hwn yw **Cirrus uncinus**, un o'r amryw fathau yn nheulu'r *Cirrus*. Y dywediad Saesneg amdano yw "*mares' tails and mackerel scales make tall ships carry low sails*". Mae'r cynffonau gwyn edafaidd, wedi eu codi i ffurf bachau gan y gwyntoedd cryf oddi fry, yn arwydd o wynt a glaw. Roedd y cymylau hyn yn gyfarwydd i longwyr Cymru yn nyddiau'r llong hwyllo fel arwydd defnyddiol o wynt ar ei ffordd - gallasai eu bywydau ddibynnu arnynt. (H.H.J.)



Blew geifr – glaw geir' ydi'r dywediad arferol. Enwau eraill ydi: gwallt y forwyn (Gwynedd), rhawn y gaseg (Meirion) a cynffon y gaseg wen (Dyffryn Clwyd) (TE)

A dyma ddywedodd Huw ar ôl iddo weld llun y cynhaeaf yn Ffrainc ar dudalen flaen y rhifyn diwethaf.

*It's the same type of cloud as the one featured in my last column. It is a cloud common to summer skies, and the French scene shows the development of Cumulus congestus very nicely. Going from left to right (which would also be the wind direction) you can see how the Cu are developing, starting as small Cu, and building to large Cu as the uplift intensifies (maybe caused by higher ground or a greater heat source).*

## Aderyn newydd yn nythu ym Mhrydain

Tynnodd Rhys Jones ein sylw at y cyhoeddiad yma ar wefan y *Guardian* ddydd Mawrth 22 July 2008: *A new British breeding species has been added to the list, and might herald colonisation, says the Somerset Ornithological Society. Following the unprecedented influx of Cattle Egrets into Britain in late 2007 and early 2008, a pair established themselves at a site in Somerset and has successfully bred for the first time, raising one young.*

Meddai Rhys "efallai nad oes cymaint â hynny o gysylltiad rhwng lledaeniad y creyr a chynesu byd eang? Mae **creyr y gwartheg** yn wladychwr penderfynol iawn - ymddengys mai naid fach ydi' o dros y Môr Udd ac yn gam bychan yn ei ymgyrch i goncro'r byd! Mae'n debygol fod mwy o adar dŵr ar eu ffordd yma i fagu am y tro cynta' hefyd (rhain hefo cysylltiad mwy amlwg hefo chynhesu byd-eang efallai?) er enghraifft y creyr mawr gwyn, bron bellach wedi cliro *customs* ac ar ei ffordd, tra bo'r creyr

porffor a'r llwybig i gyd yn y ciw ar gyfer y '*Check-in*' Pa bryd tybed fydd creyr y gwartheg yn nythu yng Nghymru ac yn ymuno a'i gefnder y **creyr bach**?



Llun Rhys Jones o greyr y gwartheg a dynnodd yn yr Emiradau Arabaidd Unedig

*"tynnais hwn Tachwedd 2005 ddim yn bell o'r Gulf of Oman reit ar y ffin hefo'r tamaid gogleddol na o Oman sydd wedi eu hynysu o'r gweddill gan yr UAE. Caeau gwyrdd wedi eu dyfrio yn ddi-baid yng nghanol y diffaethwch oeddynt lle maent yn tyfu porfa, ei dorri a'i borthi i'r gwartheg sydd yn byw yn y siediau, ddim allan ar y caeau. Roedd y Creyrod i fewn yn y siediau yn bennaf hefo'r gwartheg a'r pryfaid!"*



Tynnwyd y llun hwn o'r **creyr bach** gan Gwawr Williams yn Aberffraw yn ddiweddar

## A mwy gan Rhys...

Yn y gwyntoedd deheuol cryf 'na dydd Mercher a lau 11 Medi 2008 daeth tomen o adar **llydandroed llwyd** [*grey phalaropes*] tuag atom o'r Iwerydd. Dydd lau mi ddaeth Daniel Brown o hyd i dri mewn ffos fechan rhwng Cricieth a Morfa Bychan.



Llun gan Rhys Jones.

Gwelodd fy ffrind Jesse 3 neu bedwar yn nofio o'i amgylch, ac mi ddaeth Elfyn o hyd i 2 ger y cob echdoe yn ogystal. Heddiw wrth gyfri adar mi welsom un ohonynt ar y morfa ac wedyn yn yr Ynys lle'r oedd un yn troelli yn y lli wrth gael ei gipio heibio i Borth Meirion gan y trai. O edrych ar y newyddion adar, mae 'na gannoedd wedi eu gweld oddi ar arfordiroedd y de-orllewin. [ON Cafodd Mair Williams llydandroed llwyd hefyd ar Lyn Alaw yr un pryd]

## Dyma beth ddywedwyd am yr adar llydandroed llwyd a'n cyrrhaeddodd mewn niferoedd y tro diwethaf, ym Medi 1957

*Fine and calm weather in south and east Greenland during late August and the first week or two of September probably enabled migration to get quickly under way. The phalaropes concerned in the main peak of 13th-14th September may have come south very quickly with a following wind all the way from quite far north in east Greenland, and even from as far distant as Spitzbergen....The main influx took place in September and the species was widely distributed during the first three weeks of that month. There was a spell of cyclonic north-westerly weather in the eastern Atlantic between 23rd and 27th August, with a low moving towards Norway from the Faeroe Islands; similar conditions arose again on the 4th September and prevailed almost continuously until about the 14th. The winds reached gale force on the 6th and 7th.... British Birds Chwefror 1959*



## Y Feidiog...



Llun: Gill Brown, Waunfawr


...neu'r fantell fair *Alchemilla glabra*.

Dyma ddywedodd Mrs Grieves am hwn yn ei llyfr A Modern Herbal (1931):

*Alchemilla* is derived from the Arabic word *Alkemelych* (alchemy) [whose] alchemical virtues [were said to lie] in the subtle influence the foliage imparted to the dewdrops that lay in its furrowed leaves...constituting part of many mystic potions.

## Pwt o LANSADWRN

Annual accumulated monthly rainfall Llansadwrn in 2008



[www.llansadwrn-wx.co.uk/daily/diarylast.html](http://www.llansadwrn-wx.co.uk/daily/diarylast.html)

Pa mor lawog bu 2008 hyd yn hyn?

## Gair gan Dafydd Guto, Llanrug

Ymhellach i'r drafodaeth am y **moel** mewn enwau lleoedd yn Rhifyn 8, meddai Dafydd "wrth ymdrin â'r enw **Felin Foel** (Cyfaill yr Aelwyd, Ionawr 1887) crybwyllir 'carn o yd neu ryw luniaeth arall pan y'i gosodir uwchlaw ymylon y llestr ei dodir ynddo + cyflawnder yn llifo dros yr ymylon' ...nid llwm na noeth pob moel wel'di!". Ai "Melin y pentwr o yd", neu Felin Digionedd hyd yn oed, yw ystyr Felin Foel? Diolch Dafydd

## Mwy am ddefnyddio moresg (Gafrod: Rhifyn 8) gan Steffan ab Owain

Y tro cyntaf imi weld cyfeiriad at dimpan foresg oedd yng ngholofn Llith Bob Owen (Croesor) yn Y Genedl Gymreig. Roedd yntau wedi ei godi o daliadau yn Llyfr Ffestri Plwyf Ynyscynhaearn. O dan fis Mai 1756 ynddo ceir: "Am dimpan foresg 8d". Bu Bob mewn penbleth ynglŷn â beth a olyga. Mewn ymateb iddo, awgrymodd Ioan Brothen tybed ai math o fwrthwl sinc wedi ei wneud o hesg ydoedd. Pa fodd bynnag, methwn i a deall pam a fuasai'r eglwys yn talu am wneud y fath beth i'r plantos. Ar ôl ychydig o

ymchwil deuthum i wybod mai math o glustog i'w roi o dan y pengliniau neu'r pen ôl oedd y 'tinpan/timpan' hwn, ac wrth gwrs, roedd wedi ei wneud o foresg ac ar gyfer yr addolwyr, yn ddiau. Bum yn meddwl hefyd, tybed ai un wedi ei wneud yn lleol oedd hwn? Byddai'n braf cael clywed a oes enghreifftiau tebyg wedi eu cofnodi o fannau eraill, oni byddai?

## ac eto gan Steffan, am "Comio" (brigo neu cau)

Yn dilyn y pwt ar "berdio" yn Rhifyn 8, tynnodd Steffan ein sylw at "Diwydiannau Coll" Bob Owen, Croesor (1943):

Byddent yn cau a brigo un cae er troi yr holl anifeiliaid iddo yn y nos, ac yn y dydd bechgyn neu enethod fyddai yn eu cadw. Dydd pwysig oedd y diwrnod comio fel y'i galwent. Byddent wedi berdio neu frigo cloddiau a gwneud llyffetheiriau erbyn dydd arbennig.

## Stribedi Cerrig



Ar ôl gweld llun y poligonau cerrig ar y blaned Mawrth (Rhifyn 8) aeth Jeremy Williams allan i chwilio am olion ôl-rewlifol yn Eryri: "We were out on the Hebog ridge and I spied some stone stripes (N descent off of Moel

Lefn), with mounded turf in between - one of those periglacial features on sloping ground. I think the process is the same as for the polygons but they are on flat ground, i.e. a concentration of the stones due to frost heave.

## Gwalchwyfyn y Taglys

**Atal y wasg!!** Maurice Giffin wedi cysylltu: "Diolch yn fawr am Llên Natur, diddorol iawn. *Pics taken 19th Sept at 9pm. [Talybont, Dyffryn Ardudwy] .... [The moth was] about 6cm. long*". Gwalchwyfyn y Taglys yw hwn, mewn fudwr o dde Ewrop [Gol.]



## Cofnodion diweddar eraill:

Medi 1982 yn y Bermo

2 Medi 1992 gwalchwyfyn y taglys gan Wyn Rowlands yn yr Efail newydd

6 Hydref 1999 gwalchwyfyn y taglys, Llanaber, Bermo, Beti Roberts, Belaport,

8 Medi 2005 Tom Golan wedi cael gwalchwyfyn convolvulus wrth ei dŷ, Golan, Garn Dolbenmaen\*.

\*erthygl yng nghylchlythyr C.E.LL. 2006